| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd 2011** |
| **TEITL** | **Cyllideb Refeniw 2011/12 –<br>Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2011)** |
| **PWRPAS** | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| **GWEITHREDIAD** | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried materion sy'n codi o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, a phenderfynu ar argymhellion priodol i reoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| **AWDUR** | **Dafydd L Edwards - Pennaeth Cyllid** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Siân Gwenllian** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Pan gyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad 'Datganiad Cyfrifon 2010/11' i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2011, eglurwyd rhai o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nodwyd y bydd angen i'r Cyngor newid ei drefniadau o "drefniadau amgen", sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth" sef Cabinet. Bwriedir i'r trefniadau newydd ddod yn weithredol yn dilyn yr etholiad ym Mai 2012.

1.2 Bydd y Mesur hefyd yn newid pwyslais a ffurf y Pwyllgor Archwilio. O ran ffurf, bydd y Mesur yn mynnu o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor, ac o ran pwyslais, bydd y pwyllgor yn craffu rhai materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio cyfredol i dreialu'r drefn, drwy dderbyn adroddiadau ariannol ychwanegol yn ystod 2011/12, sef adroddiadau cyllideb chwarterol ac adroddiadau rheolaeth trysorlys (ar fuddsoddi a benthyg).

1.3 Mewn cyfarfodydd blaenorol, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi croesawu'r dull hwn o weithredu ar gyfer y flwyddyn 2011/12. Cyflwynir yr eitem hon a'r 2 eitem ganlynol fel eitemau "Cyllid" o'r fath newydd, yn hytrach nac eitemau "Archwilio" traddodiadol.

1.4 Cyflwynwyd adroddiadau adolygiad chwarter 1af i'r Bwrdd ar 26 Gorffennaf 2011. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2011/12.

## 2. CYFLWYNIAD

2.1 Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2011/12, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

2.2 Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol (yn y golofn ar ochr dde'r tudalennau llydan).

## 3. MATERION SY'N CODI

3.1 **Cyffredinol**
Wrth lunio cyllideb 2011/12, cymerwyd camau i arbed £1.2m, ac roedd hyn am olygu rhywfaint mwy o risg o orwario ar rai cyllidebau. Cyfeirir isod at rai o'r materion sy'n codi a'r camau a gymerwyd i'w rheoli.

3.2 **Chwyddiant**
Er gwaethaf cynnydd digynsail mewn chwyddiant ar rai penawdau, ymddengys gall y gyllideb wrth gefn ddelio gyda hynny eleni.

3.3 **Incwm Corfforaethol**
Mae'r targedau casglu trethi ac incwm llog yn dynn iawn, ac mae straen ar y penawdau corfforaethol yma i'r dyfodol oherwydd parhad yr economi llwm. Er hynny, nid oes problem o sylwedd eleni.

3.4 **Incwm yr Adrannau**
Mae'r economi hefyd yn lleihau incwm Cynllunio (Adran Rheoleiddio), Rheolaeth Adeiladu (Adran Ymgynghoriaeth), angorfeydd Hafan (Adran Economi a Chymuned), ac eraill. Rhoddir sylw yma i sefyllfa 2011/12, ond bydd rhain hefyd angen sylw yng nghylch cyllidebu 2012/13.

3.5 **Ymgynghoriaeth**
Mae'r Adran Ymgynghoriaeth yn gofyn am £70,000 er mwyn bod yn gystadleuol gyda'i ffioedd.

3.6 **Gwariant yr Adrannau – Cyffredinol**
Mae sawl adran wedi tanwario gan eu bod wedi cyflawni rhai cynlluniau arbedion cyn yr amserlen berthnasol, a thrwy gadw swyddi yn wag cyn ail-strwythuro.

3.7 **Addysg**
Mae'r tanwariant yn Addysg yn annisgwyl ac yn rhannol o gyflawni arbedion yn gynnar. Argymhellir symud elfen o danwariant 2011/12 i gronfeydd adrannol, fydd yn creu ystwythder er mwyn delio gyda sefyllfa anweddol y cyllidebau ymddeol cynnar / diswyddo ac Integreiddio erbyn 2012/13 a thu hwnt.

3.8 **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae sefyllfa'r Adran gyfan yn ymddangos yn dderbyniol, er bod angen trosglwyddo cyllideb o'r Gwasanaeth Oedolion i'r Gwasanaeth Plant. Fodd bynnag, mae swmp y tanwariant yn deillio o 2 fater penodol, sef "arbedion Categori C" a "demograffi pobl hyn". Hefyd, cyflwynwyd bidiau am nifer o faterion erbyn 2012/13, a dylid ystyried beth ellid ei gyllido o fewn adnoddau'r Adran.

3.9 **Casgliadau am y Sefyllfa Refeniw**

Mae'r penawdau lle mae tebygolrwydd o orwariant wedi'u hadnabod a'r risgiau wedi'u rheoli am 2011/12, a'i cynnwys fel bidiau 2012/13 lle'n briodol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa, ystyried yr argymhellion cyflwynir yma, ac un ai cadarnhau'r rhain, neu benderfynu ar ddatrysiad amgen, os yn briodol.**